

ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Math y Cais : Cais am orchymyn dan Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984

Cymuned: Llangywer

Ward: Llanuwchllyn a Llangywer

Bwriad: GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (CLIRFFORDD 24 AWR) (LLANGYWER) 2023

Lleoliad: Ffordd Dosbarth II - B4403 Llangywer

Argymhelliad:

Cymeradwyo gyflwyno gorchymyn clirffordd yn ar y B4403 rhwng Llanuwchllyn a'r Bala yn ei gyfanrwydd.

Cefndir a disgrifiad

Yn ystod cyfnodau o dywydd braf yn yr haf, mae wedi dod yn amlwg fod Llyn Tegid yn atyniad i lawer o ymwelwyr. Yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at broblemau parcio ar hyd y ffordd gul yn ardal Llangywer ar y B4403.

Mae'r Uned Draffig wedi derbyn cwynion gan Swyddogion y Parc Cenedlaethol ac aelodau o Gyngor Plwyf Llangywer, i gyd yn mynegi eu pryderon am effeithiau andwyol parcio diystyriol. Mae'r parcio diystyriol nid yn unig wedi achosi tagfeydd traffig, sy'n pryder i drigolion lleol, ond mae hefyd yn amharu ar amser ymateb y gwasanaethau brys i argyfwng. Mewn ymateb i'r materion hyn, cynigiwn weithredu cyfyngiad clirffordd ar y ffordd. Chredwn y bydd y mesur yn lleddfu'r problemau parcio presennol.

Yr Ymgynghoriad

Ymgynghorodd Cyngor Gwynedd ar gynnig i gyflwyno gorchymyn rheoli traffig ar y rhan hon o'r ffordd ym mis Mawrth ac Ebrill 2023. Y rheswm am y Gorchymyn yw pryderon parthed i diogelwch a llif traffig ar y ffordd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad gan aelod o'r cyhoedd.

Y gwrthwynebiad

(Gweler copi o ohebiaeth y gwrthwynebydd yn Atodiad A)

Rheswm dros y gwrthwynebiad	Ymateb y Cyngor
<p>Mae'n ymddangos bod gorchymyn yn cymryd camau eithafol ar gyfer yr hyn sy'n broblem o amgylch ardal Llangywer yn ystod y tymor gwyliau brig yn unig.</p>	<p>Mae'r ffordd ganlynol yn gul iawn rhwng Y Bala a Llanuwchllyn. Credwn byddai cyflwyno cyfyngiadau mewn un lle yn unig yn arwain at gerbydau'n parcio mewn lleoliadau eraill ar y ffordd.</p>
<p>Mae 2 neu 3 ardal ar hyd y llwybr lle dylid darparu mannau parcio arhosiad byr dynodedig.</p>	<p>Mae'r gorchymyn clirffordd yn berthnasol i ffordd gerbydau yn unig. Felly nid yw rhai o'r lleoliadau sydd wedi ei nodi yn cael ei effeithio gan y gorchymyn gan ei bod yn cael eu hadnabod fel culfannau. Fel rhan o'r gwaith, bydd ystyried yn cael ei rhoi i farcio'r mannau canlynol i osgoi unrhyw ddrwschwch.</p>
<p>Cynnydd mewn cerddwyr ar y ffordd</p>	<p>Nid ydym yn credu y byddai gorchymyn yn cael unrhyw effaith ar y nifer o gerddwyr ar y ffordd.</p>
<p>Effaith y gorchymyn ar barcio mewn lleoliadau eraill yn yr ardal. Gall y Gorchymyn arwain at fwy o bobl yn parcio yng Nghanol Pentref Llanuwchllyn.</p>	<p>Mae cryn bellter rhwng Llanuwchllyn a'r lle agosaf i gyrraedd Llŷn Tegid felly nid ydym yn rhagweld y byddai problem yn codi.</p>

Barn y Cyngorydd Lleol – Cyngorydd Alan Evans – Llanuwchllyn a Llangywer

“Yn ystod cyfnodau o dywydd braf yn yr haf, mae Llyn Tegid yn atynfa i nifer o ymwelwyr. Yn ddiweddar, mae hynny wedi arwain at broblemau parcio ar hyd y ffordd yn ardal Llangywer. Gan fod y ffordd yn gul iawn, mae'r parcio didrugaredd yn medru arwain at broblemau traffig dybryd i drigolion lleol. Ond yn aml yn ystod yr amseroedd prysur yma, mae'r ffordd yn cloi yn llwyr gan draffig sy'n methu symud yn ôl na ymlaen. Golyga hyn ei bod yn amhosib ymateb i unrhyw argyfwng yn y gymdogaeth leol. Hefyd mae'r ffordd yn cloi ar yr union adegau pan mae gweithgaredd dwr ar ei brysuraf gyda cannoedd yn ymdrochi. Brawychus iawn yw meddwl ei bod yn amhosib i'r gwasanaethau argyfwng gyrraedd at unigolyn mewn trafferth yn Llyn Tegid, sef Llyn sydd wedi profi i fod yn beryglus iawn dros y blynyddoedd.”

Rydem wedi ymgynghori yn eang gyda'r gymdogaeth a'r Cyngor Plwyf, a mae hwythau yn croesawu mesuriadau canlynol. "

Asesiad o'r bwriad

Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Gymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. A dal sylw dyledus at y ddyletswydd gymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Mae gofyn i'r pwyllgor ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad.

Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad penodol yn deillio o'r penderfyniad.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyfrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r argymhelliad wedi ei baratoli gan ddal sylw at ofynnon y Ddeddf a chyfarch y pum ffordd o weithio

Argymhelliad:

Cymeradwyo'r cyflwyno'r gorchymyn yn ei gyfanrwydd.

Atodiadau

- A - Copi o Lythyr yn gwrthwynebu .
- B - Map o'r cynllun arfaethedig.

Atodiad A – Llythyr Gwrthwynebiad

sgrifennaf atoch i wrthwynebu'r gorchymyn hwn.

Mae'n ymddangos bod y gorchymyn hwn yn cymryd camau eithafol ar gyfer yr hyn sy'n broblem weddol fanwl gywir o amgylch ardal Llangower yn ystod y tymor gwyliau brig. Rwy'n teimlo y gallwn gefnogi'r gorchymyn hwn pe bai rhai gwelliannau ac ystyriaethau'n cael eu gwneud.

1. Mae 2 neu 3 ardal ar hyd y llwybr lle dylid darparu manau parcio arhosiad byr dynodedig. Gweler y lluniau atodedig i'w hystyried:

1. Golygfa Llyn

1. Dyma'r man mwyaf golygfaol ar y llwybr ac o'r herwydd dylid creu man aros ar gyfer y rhai sydd am fwynhau'r llyn a'i olygfeydd godidog, ond efallai na allant gerdded ar hyd y llwybrau dynodedig. h.y. yr henoed a'r anabl.

2. Mae'r llecyn hwn hefyd yn llecyn anhygoel i weld Trenau Rheilffordd Llyn Tegid. Mae'r BLR nid yn unig yn atyniad enfawr i'r rhai sydd am reidio'r trenau, ond i'r rhai sy'n dymuno tynnu lluniau o'r trenau wrth eu gwaith yn llawn. Heb fannau aros dynodedig gallai hyn atal pobl rhag ymweld â'r ardal a'r BLR.

2. Pentrepiod

1. Gweler pwynt 1.1.2 uchod

3. TrainSpot

1. Gweler pwynt 1.1.2 uchod

2. Cynnydd mewn cerddwyr / cerddwyr.

1. Os nad ydych yn gallu parcio unrhyw le ar y llwybrau hyn yna'r unig opsiwn i gael mynediad i rai manau o'r llwybr (nid yn unig, ond gweler pwynt 1 uchod), yw cerdded ar hyd y ffordd. Er bod llwybrau troed ar gael maent yn cychwyn gryn bellter o'r manau lle mae'r glirffordd drefol arfaethedig yn cychwyn. Nid yw'r rhain ychwaith yn darparu mynediad i'r ardaloedd a amlygwyd ym mhwynt 1, ac nid ydynt ychwaith yn darparu mynediad i'r ardal allweddol o dagfeydd ar y llwybr hwn yn Llangower.

3. Llangower

1. Sut mae'r gorchymyn hwn yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater allweddol yn Llangower. Er y bydd yn gobeithio atal parcio y tu allan i'r maes parcio dynodedig yn y pwynt allweddol hwn, sut mae'n bwriadu caniatáu i bobl gael mynediad i'r ardal hon ar adegau allweddol megis gwyliau banc?

1. A fydd trenau ychwanegol yn cael eu darparu yn Llanuwchllyn neu'r Bala yn rhedeg yn union i Langower? Os felly, ble fyddai'r maes parcio yn Llanuwchllyn/Bala? sut fyddai hyn o fudd i ddefnyddiau dŵr gydag offer mawr a thrwsgl?

2. A fydd gwasanaeth parcio a theithio yn cael ei gynnig, gallai hyn wedyn gefnogi defnyddwyr y llyn a'u hoffer?

3. A fydd manau parcio ychwanegol yn cael eu darparu yn Llangower neu gerllaw?

2. Heb ystyried yr uchod, a yw hyn yn gorfodi mwy o gerbydau i mewn i Lanuwchllyn ac yn gorfodi defnyddwyr llyn sy'n dymuno mynd i Langower i gerdded ar hyd y B4403? cario eitemau beichus o bosibl i'w galluogi i dreulio cyfnod o amser wrth y llyn.

1. Os felly, ble fydd y lle parcio ychwanegol yn cael ei ddarparu yn Llanuwchllyn?

2. Os felly, sut yr ystyrir bod y nifer ychwanegol o bobl sy'n cerdded ar hyd y B4403 yn fwy diogel na'r trefniadau presennol?

1. Os yw cerbydau wedi'u parcio yn ei gwneud hi'n anoddach mordwyo'r ffordd, yna yn naturiol mae hyn yn arafu defnyddwyr y ffordd gan ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr?

4. Gorfodaeth

1. Sut bydd y clirffordd yn cael ei gorfodi?

1. Trwy docyn cosb?

1. Os felly, sut mae hyn yn dileu rhwystr y ffordd?

1. A fydd hyn yn rhwystro pawb?

2. A yw hyn yn ei wneud yn gynllun sy'n canolbwyntio ar wneud refeniw ychwanegol i'r cyngor yn hytrach na maes diogelwch fel yr hysbysebwyd?

2. Clampio

1. Os felly, sut mae hyn yn dileu rhwystr y ffordd?

3. Tynnu cerbyd

1. Os felly, sut mae'r cerbydau sydd eu hangen i gyflawni gweithrediad o'r fath yn cael mynediad i'r ffordd i symud y cerbyd?

2. Cyfrifoldeb pwy fydd gorfodi'r glirffordd? Y cyngor, yr heddlu, contractwr preifat?

Ar ôl gyrru'r ffordd hon sawl gwaith, mae'r rhwystrau a achosir yn achlysurol, fel arfer o amgylch y dyddiau gwyliau brig, yn fwy o anghyfleustra nag anniogel, yn enwedig i'r rhai sy'n byw ar y rhan hon o'r ffordd. Felly rwy'n meddwl bod angen gwneud rhywbeth, ond mae angen ei dargedu i ddatrys y problemau i bawb. Fe allech chi aros yn ddiogel ar y ffordd hon ganol mis Chwefror am rai oriau a phrin gweld cerbyd arall.

Atodiad B - Map o'r cynllun arfaethedig

Cynnig Arfaethedig 'Clearway' - Llanuwchllyn i Rhos Fawr



